Campus Services
Gwasanaethau'r Campws

GWASANAETHAU PRESWYLFEYDD - Sesiwn 2023/2024

GWYBODAETH AR GYFER CYRRAEDD – De Tal-y-bont a Llys Tal-y-bont

Pob myfyriwr:

O ble dylwn i gasglu fy allwedd?

Derbynfa Llys Talybont, gweler y map drosodd neu defnyddiwch CF14 3UA yn eich teclyn llywio lloeren.

Pryd dylwn i gasglu fy allwedd?
10am hyd 4pm ar ddiwrnod cyntaf Cyfnod eich Contract (fel y nodir yn y ddogfen Derbyn y Contract ar-lein – Materion Allweddol)

Os na fyddwch yn casglu eich allwedd erbyn 4pm, efallai bydd eich llety neilltuedig yn cael ei dynnu'n ôl ac yn cael ei gynnig i fyfyriwr arall.

Ebostiwch:residences@caerdydd.ac.uk os oes gennych ymholiadau am statws eich cais.

Cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus:

Os byddwch yn cyrraedd gorsaf reilffordd Caerdydd Canolog, neu ar fws:

Tacsi – Gallwch gael gafael ar dacsi yn rhwydd o'r safle tacsis y tu allan i orsaf reilffordd Caerdydd Canolog. Os byddwch yn cyrraedd ar fws ac yn methu dod o hyd i dacsi, 02920 333 333 yw rhif un o'r cwmnïau tacsis lleol. Bydd y rhain yn costio oddeutu £10, gan ddibynnu ar y pellter a faint o fagiau sydd gennych.

Bws – Mae nifer o lwybrau bysiau yn rhedeg o ganol dinas Caerdydd, sy'n aros gerllaw neuaddau preswyl. I gael rhagor o wybodaeth ac amserlenni, ewch i'r dudalen we ganlynol: http://www.cardiffbus.com/

A oes maes parcio ar gael?

- Mae cyfleusterau parcio dros dro ar y safle ar gyfer dadlwytho
- Yn anffodus, gallwn ganiatáu 45 munud yn unig i ddadlwytho eich cerbyd oherwydd cyfyngiadau parcio a faint o bobl sy'n cyrraedd
- Ar ôl dadlwytho, gallwch barcio yn y maes parcio talu ac arddangos agosaf sydd ar Heol y Gogledd - oddeutu 15 munud ar droed (gweler y map drosodd)

Campus Services

Gwasanaethau'r Campws



PARCIO (ar ôl dadlwytho)



Campus Services

Gwasanaethau'r Campws

MAP O'R SAFLE